Arlunydd y bobl

(dyfeisgarwch / gwerthfawrogi doniau)

"Faint o weithiau mae eisiau dweud, nid lle chwarae ydi melin wynt." Dyna fyddai mam Rembrandt yn ei ddweud ddegau o weithiau mewn diwrnod. Yn Amsterdam, lle roedd Rembrandt yn byw, roedd melinau gwynt yn gyffredin iawn bryd hynny. A dyna lle byddai yn hongian oddi ar y llorpiau. Byddai'n gwahodd rhai o'i ffrindiau i ddod i chwarae yn y felin wynt. Fel roedd yn tyfu i fyny byddai'r awydd i chwarae yn mynd yn llai ac yn llai a byddai'n rhoi mwy o egni i beintio lluniau. Er nad oedd camerâu i'w cael bryd hynny mae portreadau da iawn ohono ar gael. Roedd wrth ei fodd yn peintio ei lun ei hun. Mae nifer ar gael – rhai ohonyn nhw pan oedd yn ifanc iawn a'r lleill pan oedd wedi heneiddio.

Yn wahanol i Monet roedd yn hoffi peintio ar yr aelwyd gyda'i deulu. Byddai'n defnyddio ei deulu a'i berthnasau fel modelau ar gyfer ei waith. Mae yna un darlun o'i fam yn darllen ei Beibl ac un arall o'i fab, Titus, yn gwneud ei waith cartref. Mae'n edrych yn union fel petai'n pendroni uwchben problem fawr neu'n synfyfyrio a'i feddwl ymhell, bell.

Yn y cyfnod hwn roedd llawer o'r bobl gyfoethog yn awyddus i gael eu lluniau ac felly fe fydden nhw'n mynd at yr arlunydd. Mae llawer o'r portreadau hyn yn dangos y bobl yn eu gwisgoedd tywyll a golwg ddigon trist ar y rhan fwyaf ohonyn nhw. Mae'r 'Portread o'r Wraig Fonheddig' sydd yn hongian yn un o orielau Efrog Newydd yn enghraifft dda o ddarluniau'r cyfnod.

O dro i dro byddai Rembrandt wrth ei fodd yn gwisgo i fyny mewn dillad o liwiau golau a phob math o dlysau ac yna'n peintio portread ohono'i hun. Mae dau o luniau tebyg i hyn yn enwog iawn, sef darlun ohono gyda'i wraig Saskia a darlun ohono mewn gwisgoedd o'r Dwyrain Pell a'r ci wrth ei draed. Mae'n amlwg ei fod yn hoff iawn o gŵn gan eu bod yn ymddangos yn gyson yn ei waith.

Mae Rembrandt yn enwog am ei ddefnydd o liwiau tywyll a golau yn ei ddarluniau. Un o'r rhai mwyaf enwog ydi "Gwledd Belshazzar". Yn y darlun hwn mae'n amlwg fod y gwesteion yn cael hwyl fawr yn y gloddesta gan fod dau wydraid o win yn cael eu llowcio ar yr un pryd. Weithiau byddai'n peintio'n ysgafn a thro arall yn drwm; yn ei ddarlun o'r "wledd" mae'n defnyddio paent

ysgafn ond ar dlysau Belshazzar mae'r paent yn dew ac yn olau.

Efallai mai'r llun enwocaf o eiddo Rembrandt ydi hwnnw o griw o ddynion pwysig gyda'i gilydd. Eu gwaith oedd sicrhau bod y defnydd i wneud dillad yn berffaith i gael ei ddefnyddio. Mae pob un o'r dynion fel petaent yn edrych arnoch chi yn cerdded i mewn i'r ystafell. Mae'n nhw'n edrych fel petai ganddyn nhw ddiddordeb ynoch chi.

Roedd yn hoff iawn o beintio darluniau o hanesion o'r Beibl. Ond roedd yn peintio gwisgoedd gwahanol iddyn nhw, rhai oedd yn perthyn i'w gyfnod ef. Byddai'n gwneud yr un modd gyda'r dodrefn. Pan fu farw yn 63 oed roedd ar ganol peintio llun o un o hanesion y Testament Newydd, sef hanes Simeon yn cofleidio'r baban Iesu yn y Deml.

Wrth edrych ar ei ddarluniau mae un peth yn sicr iawn, mae ei bobl yn edrych yn fyw er eu bod yn gwisgo gwisgoedd rhyfedd o gyfnod arall.

Adnod: "...cymerodd Simeon ef i'w freichiau a bendithiodd Dduw..." Luc 2: 28

Gweddi: Wnei di fy helpu, O Dduw, i ddarganfod beth fedra i ei wneud orau? Amen.

Trafod:

- Oes yna le i ni weld bai ar Rembrandt am wisgo ei gymeriadau mewn gwisgoedd o gyfnod arall?
- O edrych a gwerthfawrogi ei waith sut ddyn oedd Rembrandt?